Bwrdd Taliadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
—
Remuneration Board of the
National Assembly for Wales

24 Gorffennaf 2017

Annwyl Aelod Cynulliad,

Ar 11 a 12 Gorffennaf 2017, cyfarfu'r Bwrdd Taliadau i drafod gwaith ar gyfer y dyfodol a fydd yn sail ar gyfer ein ffordd o feddwl am weddill tymor y Bwrdd, ac yn benodol i drafod adolygiad Prisiad Actiwaraidd Cynllun Pensiwn Aelodau a chanfyddiadau'r arolwg i Aelodau a Staff Cymorth ar effeithiolrwydd y Penderfyniad presennol. Rhoddir crynodeb yma o drafodaeth a phenderfyniadau'r Bwrdd a gwybodaeth gryno am ein rhaglen waith.

***Adolygiad o Brisiad Actiwaraidd Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad***

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn destun Prisiad Actiwaraidd bob tair blynedd i asesu sefyllfa ariannu'r cynllun, ac i Actiwari'r Cynllun i gadarnhau lefel y cyfraniadau y mae'n rhaid i'r Comisiwn dalu i'r Cynllun yn y dyfodol.

Trafododd y Bwrdd bapur ar ganlyniadau rhagarweiniol Prisiad Actiwaraidd 2017 Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae Actiwari'r Cynllun wedi cynnig cynnydd yng nghyfradd cyfraniad y Comisiwn. Y rheswm dros y cynnydd yw, ym marn Actiwari'r Cynllun, y bydd adenillion ar fuddsoddiad yn llai ffafriol yn y dyfodol o gymharu â'r rhai y gwelodd y Cynllun dros y blynyddoedd diwethaf.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6331
E-bost/Email: Taliadau@cynulliad.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cadarnhaodd y Bwrdd eu bod yn deall yr angen i gynyddu cyfradd cyfraniad y Comisiwn a chytunodd i hysbysu Actiwari'r Cynllun o'u barn. Nid yw hyn yn effeithio ar gyfraniadau Aelodau. Bydd y rhain yn parhau i fod yr un fath.

Bydd cyfradd cyfraniadau'r Comisiwn yn y dyfodol yn cael ei chadarnhau ar ôl cwblhau Prisiad yr Actiwari.

### *Canlyniadau'r arolwg i Aelodau a Staff Cymorth ar effeithiolrwydd y Penderfyniad*

Trafododd y Bwrdd ganlyniadau arolygon a roddwyd i Aelodau a Staff Cymorth rhwng 5 Mai a 16 Mehefin 2017. Mae'r arolwg hwn yn dilyn penderfyniad blaenorol y Bwrdd i adolygu'r Penderfyniad presennol ar ôl blwyddyn o'r Pumed Cynulliad.

Hoffai'r Bwrdd ddiolch i bawb a ymatebodd i'r arolwg. Ymatebodd cyfanswm o 24 Aelod (40 y cant) a 67 staff cymorth (27 y cant) i'r arolwg. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref. Byddwn yn sicrhau bod grwpiau cynrychioli Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth yn cael gwybod am y canlyniadau a'n cynlluniau ar gyfer eu cyhoeddi.

Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu hystyried fel rhan o'n hadolygiad i'r strwythur gyrfaoedd a thelerau ac amodau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ac adolygiad o'r Penderfyniad.

### *Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad i nodi rhwystrau a chymhellion dros sefyll mewn etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

Cytunodd y Bwrdd yn flaenorol i edrych ar y rhwystrau a chymhellion, sydd o fewn cylch gwaith y Bwrdd, dros sefyll mewn etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd Canolfan Llywodraethiant Cymru yn llwyddiannus mewn proses dendro agored i wneud y gwaith ymchwil, ac fe ddaeth i'r cyfarfod i roi diweddariad i'r Bwrdd o'r gwaith y mae wedi'i wneud hyd yma. Gwnaeth hefyd amlinellu camau nesaf y gwaith ymchwil. Gofynnwyd i'r Ganolfan gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd erbyn mis Rhagfyr 2017.

### *Trafod Adroddiad Blynyddol Drafft y Bwrdd Taliadau 2016-17*

Trafododd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol Drafft y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2016-17 a chytunodd i gyhoeddi'r adroddiad maes o law.

### *Adolygiad i strwythur gyrfa a thelerau ac amodau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad*

Trafododd y Bwrdd bapur yn amlinellu cwmpas posibl ar gyfer ei adolygiad i gymorth i Aelodau, gan gynnwys strwythur gyrfa Staff Cymorth a'u telerau ac amodau. Diben cynnal adolygiad yw cael cipolwg o'r gwelliannau tymor byr a

chanolig dros y Cynulliad presennol yn ogystal â gwella unrhyw welliannau tymor hwy a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer y Chweched Cynulliad.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno i ddefnyddio ystod o dystiolaeth i lywio'r adolygiad, gan gynnwys y canlyniadau o'i arolwg diweddar o Aelodau a Staff Cymorth. Bydd y Bwrdd yn trafod y dystiolaeth hon yn ei gyfarfod ym mis Hydref cyn cytuno ar gamau nesaf yr adolygiad.

Byddwn yn sicrhau bod Aelodau, eu Staff Cymorth a'u grwpiau cynrychioliadol yn gwbl ymwybodol o'r camau a gymerwn, ac yn cael cyfle i gymryd rhan ar adegau allweddol.

**Y wybodaeth ddiweddaraf**

***Penodi Bwrdd newydd***

Yn dilyn proses recriwtio agored diweddar, penodwyd Ronnie Alexander fel pumed aelod y Bwrdd a bydd yn gwasanaethu fel aelod o'r Bwrdd am weddill y Pumed Cynulliad. Hwn oedd cyfarfod Bwrdd cyntaf Ronnie.

***Cynnydd o ran adolygiadau diogelwch ar swyddfeydd***

Trafododd y Bwrdd y diweddaraf ar adolygiadau diogelwch swyddfeydd Aelodau. Nododd y Bwrdd fod pob Aelod Cynulliad bellach wedi cael o leiaf un ymweliad safle swyddfa gan swyddog cymwysedig o'r Tîm Diogelwch. Hoffai'r Bwrdd atgoffa Aelodau o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt fel rhan o'r adolygiadau diogelwch. Mae hyn yn cynnwys darparu gwelliannau diogelwch angenrheidiol a rhesymol i Aelodau yn eu swyddfeydd etholaeth, llety preswyl (os yn gymwys) a chartrefi. Cysylltwch â'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau i gael rhagor o wybodaeth.

***Diwygio Trefniadau Etholiadol y Cynulliad***

Clywodd y Bwrdd y diweddaraf ar y gwaith yn ymwneud â Diwygio Etholiadol y Cynulliad. Nodwyd bod disgwyl i'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad gyflwyno adroddiad yn hydref 2017. O ystyried amcan strategol ehangach y Bwrdd o lunio Penderfyniad sy'n addas i'r Chweched Cynulliad, sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cyfansoddiadol esblygol y sefydliad, bydd y Bwrdd yn cadw llygad barcud ar y materion hyn.

Cytunodd y Bwrdd i wahodd Cadeirydd y Panel Arbenigol, yr Athro Laura McAllister, i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Hydref 2017. Y rheswm dros hynny yw i drafod unrhyw faterion newydd a allai ymwneud â gwaith y Bwrdd ar gyfer gweddill y tymor hwn, gan gynnwys datblygu penderfyniad sy'n addas ar gyfer y Chweched Cynulliad.

*Interniaethau â Thâl*

Nododd y Bwrdd gwestiynau gan Aelodau i Gomisiwn y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 5 Gorffennaf 2017. Cytunodd y Bwrdd i ystyried rôl interniaethau â thâl fel rhan o'i adolygiad ehangach o gymorth i Aelodau.

*Y Diweddaraf o ran Ysgrifenyddiaeth*

Penodwyd Lleu Williams yn ddiweddar fel Clerc newydd y Bwrdd Taliadau. Diolchodd y Bwrdd Dan Collier am ei holl waith. Bydd Lleu Williams yn gweithio ochr yn ochr â Sian Giddins, Dirprwy Glerc, fel Ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd Taliadau.

Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, yn ôl ein harfer arferol.

Os hoffech drafod unrhyw fater gyda mi, neu gydag un o fy nghyd-aelodau ar y Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu â mi drwy'r ysgrifenyddiaeth.

Cofion gorau



**Y Fonesig Dawn Primarolo**
**Cadeirydd**
**Y Bwrdd Taliadau**